C: Ar y Gweithlu: **Mae mwy o staff nag erioed gyda ni, felly beth ydy'r broblem?**

A: Erbyn hyn mae pwysau dybryd ar staffio meddygol ym maes pediatreg, meddygaeth argyfwng, hyfforddiant llawfeddygol craidd a seiciatreg, ac yn fwy cyffredinol yn rhai o'r mannau mwyaf anghysbell o Gymru. Mae 'storom berffaith ' wedi datblygu, gyda mwy o feddygon yn ein hysbytai, ond mewn gwirionedd llai ar gael o'i gymharu â'r galw am eu gwasnaeth.

C: Ar Fynediad: **Ydy gwaeth mynediad yn anochel er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch da?**

A: Mae canoli gwasanaethau yn anorfod yn golygu bod rhaid i rai pobl deithio ymhellach. Fodd bynnag gellir gwneud llawer i liniaru effaith canoli rhai gwasanaethau. Yn arbennig, gellid gostwng y risgiau sy'n gysylltieidig â theithio ymhellach yn sylweddol petai gwasanaethau argyfwng cyn mynd i ysbyty hefyd yn cael eu hail-drefnu.

C: Ac o roi'r elfennau at ei glydd: **Beth ydy'r ddadl dros newid?**

A: Erbyn hyn mae dadl gref dros ail-drefnu rhai gwasanaethau ysbytai, yng Nghymru fel mewn mannau eraill yn y DU. Mae agwedd bositif i hyn o beth - gellid gwella canlyniadau i gleifion – ac agwedd negyddol – bydd rhai gwasanaethau yn chwalu oherwydd prinder staff allweddol , os na wneir y newidiadau'n rhagweithiol. Er bod y problemau hyn wedi bod yn datblygu tros gyfnod, bellach mae'r angen i newid yn un dirfawr mewn rhai meysydd allweddol arbenigol, wrth i lefelau staffio meddygol fynd yn fwy difrifol.

Mae'n naturiol i'r dystiolaeth hon weithiau i fod yn rhwystredig o aneglur, yn amhendant, yn gwrthddweud ei hunan, neu beidio bodoli o gwbl ac heb fod bob amser yn cynnig un ateb penodol. Fodd bynnag, fel y dengys y crynodeb hwn a'r papurau atodol, mae yna bellach dystiolaeth argyhoeddiadol nad ydy gwasanaethau ysbyty yng Nghymru ddim bob amser wedi eu trefnu yn optimaidd, ac y gallai gofal cleifion fod yn dioddef, a bod rhai grwpiau o staff allweddol, mewn rhai ysbytai, yn anghynaliadwy, gyda'r risg o weld y gwasanaeth yn chwalu'n llwyr a hynny'n fuan. Felly rhaid i'r darllenwyr bwyso a mesur y dystiolaeth drostyn nhw eu hunain, gan ystyried y dehongliad i'w roi arni a defnyddio'u synnwyr cyffredin. Yn aml, pethau fel hyn ydy penderfyniadau polisi iechyd - yn rhannol ym ymwneud â dyfarniadau gwerth, ac y mae dod i gyfaddawd derbyniol rhwng gwahanol amcanion yn rhywbeth arall y mae'n rhaid i ddarllenwyr ei wneud drostyn nhw eu hunain. Dyna pam bod angen trafodaeth gyhoeddus o ddifrif am y materion hyn. Mewn rhai agweddau allweddol, fodd bynnag, mae digon o dystiolaeth i bryderu a ydyn ni wir yn cael y gofal gorau posibl gan yr adnoddau yr ydyn ni'n buddsoddi ynddyn nhw.

'Here now is the opportunity to build a hospital service equal to any in the world and matched, I would think, by very few… the intention of the Government and of the Hospital Service [is] to rise to that opportunity… This Plan is nothing less than a plan for the modernisation of our hospital system… to make clear the sort and size of hospitals which we ought to have if we are to make the best use of the specialist techniques of our time, together with the general practitioner services and the domiciliary services.'

Yr Arglwydd Newton, yn cyflwyno *Cynllun Ysbytai ar gyfer Lloegr a Chymru* i Dŷ'r Arglwyddi yn 1962

1. CYFLWYNIAD

I. PWRPAS Y PAPUR HWN

Gofynnwyd am farn pobl ar draws Cymru ar sut y dylid newid eu gwasanaethau iechyd. Lluniwyd y papur hwn i helpu pobl i benderfynu drostyn nhw eu hunain. Mae'n adolygu'r dystiolaeth am yr hyn ydy'r ffordd 'orau' ar gyfer darpariaeth ysbytai, ac asesu cryfderau a goblygiadau'r dystiolaeth. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu am y **nifer optimaidd o wasanaethau ysbytai, eu maint a'u dosbarthiad yng Nghymru.** Mae'n ddi-duedd, yn seiliedig yn unig ar y dystiolaeth a adolygwyd ac mae unrhyw ddyfarniad a wneir ar sail y dystiolaeth yn eglur a phendant. Ysgrifennwyd y papur yn bennaf ar gyfer cynulleidfa leyg: pobl sydd yn poeni am ddyfodol eu gwasanaethau iechyd, ac yn dymuno penderfynu drostyn nhw eu hunain rhwng y gwahanol safbwyntiau sydd weithiau'n groes i'w gilydd a gyflwynir ar y cyfryngau a mannau eraill.

Dydy'r papur ddim yn ystyried cynlluniau *lleol*: ond yn hytrach mae'n adolygu'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud *yn gyffredinol* am newidiadau i'r patrwm o wasanaethau ysbytai. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ysbytai aciwt, ond mae'n gwneud y pwynt mai rhan yn unig ydy'r ysbytai hyn o rwydwaith cymhleth o wasanaethau GIG Cymru, a'u bod yn dibynnu ar y gwasanaethau o'u cwmpas. Mae hefyd yn gweithio ar y sail y gall y dystiolaeth *helpu* pobl ddod i benderfyniad, *ond ddim yn rhoi'r ateb i chi*. Wrth wraidd y materion anodd hyn mae set o ddyfarniadau gwerth: mae angen i bobl benderfynu drostyn nhw eu hunain ar yr hyn sydd o fwyaf bwys yn eu tyb nhw mewn gofal iechyd a pha gyfaddawdu y maen nhw'n barod i'w dderbyn.

Mae'r papur hwn yn seiliedig ar dair dogfen 'dechnegol' gysylltiedig sy'n disgrifio'r dystiolaeth yn fwy manwl:

I. Ansawdd a Diogelwch
II. Y Gweithlu
III. Mynediad

Os ydy'r darllenydd am gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw fater arbennig, gall droi at y dogfennau technegol hyn.

II. ATEBION AR EU PEN I GWESTIYNAU SYML

Mae llawer o'r dadlau ynglyn ag unrhyw ddarpar aildrefnu gwasanaethau iechyd unrhywle yn y DU yn deillio o gynigion i newid yr hyn y mae ysbytai yn ei gynnig, ac yn enwedig i dynnu gwasanaethau oddiar

ysbytai lleol. Yn llawer rhy aml, mae'n ymdangos, dydy'r ddadl ddim wedi'i seilio ar y dystiolaeth ac mae hyn yn drysu pobl (neu'n eu gwneud yn amheus) am yr hyn sy'n digwydd. Rydyn ni wedi seilio'r adolygiad hwn o'r dystiolaeth ar rai o'r cwestiynau syml - ond dwys – y mae pobl yn eu gofyn dro ar ôl tro am ddyfodol eu hysbytai ac yn cael trafferth weithiau i gael atebion sy'n eu hargyhoeddi:

- Ar Ddiogelwch ac Ansawdd: **Beth sydd o'i le ar batrwm presennol ein gwasanaethau ysbytai?**
- Ar y Gweithlu: **Mae mwy o staff nag erioed gyda ni, felly beth ydy'r broblem**
- Ar Fynediad: **Ydy gwaeth mynediad yn anochel er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch da**

Ac o roi'r elfennau at ei gilydd: **Beth ydy'r ddadl dros newid?**

Mater arall sy'n codi'n aml yn y trafodaethau hyn ydy arian: **Allwn ni fforddio gwella'r gwasanaeth?** Dydyn ni ddim yn adolygu'r dystiolaeth ar hyn yn y fan yma ond ceir trafodaeth am yr hyn allai'r cwestiwn ei olygu.

2. Y CYD-DESTUN

I. MAE YSBYTAI O SAFON BYD EANG YN DIBYNNU AR...

Argymhellodd Comisiwn Bevan i Lywodraeth Cymru y dylai gofal iechyd yng Nghymru *'fod yn addas i anghenion Cymru ac yn un cyffelyb i'r gorau unrhywle'.* Sef: 'safon byd eang'. Mae diffiniadau o'r hyn yw gofal ysbyty o 'safon byd eang' yn amrywio o le i le, o berson i berson, ond ceir mesur o gytundeb ar y pedwar set o faterion penodol sydd wrth wraidd llwyddiant cyffredinol: ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn yr ysbyty; pa mor hygyrch ydy'r gofal; a ydy'r gweithlu'n ddigonol o ran ansawdd, eu nifer a'u dosbarthiad; ac a ellir fforddio'r system. Mae rhaid i bob un o'r rhain fod yn gynaliadwy i'r dyfodol. Does dim un system yn y byd wedi gallu cyflawni pob un o'r meysydd hyn yn berffaith, na chwaith fyth yn gallu: mae 'safon byd eang' yn golygu canfod set o gyfaddawadau sy'n dderbyniol i ddinasyddion a'r gweithredwyr proffesiynol (Ffigwr 1):

Ffigwr 1: Penderfynyddion gofal ysbytai o safon byd eang



Mae'r papur hwn yn cyfeirio at wasanaethau ysbytai aciwt ac mae ffocws cul i'r dystiolaeth a adolygwyd yma. Ond mae'r ffactorau yn eu cyd-destun yn hanfodol i lwyddiant ysbytai. Maen nhw'n troi'n gyfres o amcanion sy'n gyffredin i fwyafrif o systemau gofal iechyd y byd datblygedig, gan gynnwys Cymru ac eisoes yn destun amrywiaeth o fentrau eraill:

- Helpu pobl a chymunedau i ofalu amdanyn nhw eu hunain – i atal afiechyd a chadw pobl yn iach
- Rheoli'r baich cynyddol o glefydau cronig - er mwyn lleihau effaith cyflyrrau hirdymor sydd eisoes yn cyfrif am fwyafrif y gofal iechyd yng Nghymru
- Rhagor o gapasiti GIG a chydgysylltu tu allan i'r ysbyty – er mwyn symud cydbwysedd yr adnoddau tuag at y gymuned
- Atal derbyniadau diangen i'r ysbyty – i sicrhau mai dim ond cael eu derbyn i'r ybyty y bydd pobl pan fo hwnnw'r dewis gorau iddyn
- Gwell cydlynu rhwng holl ddarparwyr gwasanaethau – er mwyn darparu gwaith tîm effeithiol ar draws ystod cymhleth o wasanaethau sydd eu hangen ar bobl
- Mabwysiadu mesurau effeithiolrwydd o safon fyd eang - er mwyn parhau â'r dasg ddiddiwedd o wneud y system i weithio mor effeithlon â phosibl
- Dilyn yr arferion clinigol gorau – er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn dilyn arferion da cydnabyddedig
- Osgoi oedi rhag ryddhau o'r ysbyty – er mwyn sicrhau bod pobl yn gadael yr ysbyty i fynd i'r mannau priodol heb unrhyw oedi
- Gwasanaethau a gynlluniwyd ar gyfer gwahanol gymunedau – er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trefnu'n briodol a'u cymhwyso i'w hardal
- Partneriaeth rhwng gwasanaethau a chleifion – er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion yn cymryd rhan yn eu gofal eu hun, yn gwneud penderfyniadau a derbyn y gofal sy'n addas ar eu cyfer
- Adnoddau digonol – er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n effeithlon ac yn derbyn yr arian a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae cyflawni gwasanaethau ysbytai o safon fyd eang yn golygu cyflawni darpariaeth o safon fyd eang ar gyfer pob un o'r agweddau hyn yn ogystal â threfnu gwasanaethau ysbytai eu hunain i'r safon gorau posibl. Yng Nghymru, mae cyflawni'r trydydd nod – sef gwella gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cysylltiedig yn ddramatig *tu allan i* ysbytai – yn arbennig o bwysig i ddyfodol gwasanaethau ysbytai. Mae wedi bod yn amlwg ers cryn amser bod gan Gymru fwy o welyau ysbyty na Lloegr – 3.90 o welyau am bob 1,000 o boblogaeth yng Nghymru o'i gymharu â 2.64 o welyau am bob 1,000 o boblogaeth yn Lloegr (Rhagfyr 2011). Rhaid i gynnydd yn y maes hwn (a amlinellir yn *Gosod y Cyfeiriad,* polisi Llywodraeth Cymru) gydsymud yn union â datblygiad gwasanaethau ysbytai os nad ydy hwnnw'n cael ei adael i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer y gymuned a derbyn pobl y dylid gofalu amdanyn nhw yn y gymuned.

II. 50 MLWYDD OED OND YN NEWID YN BARHAUS

Sefydlwyd patrwm cyfredol gwasanaethau ysbytai yn Lloegr a Chymru 50 mlynedd yn ôl yn *The Hospital Plan for England and Wales*, cynllun Enoch Powell, AS, y Gweinidog Iechyd bryd hynny. Mae ei nod yn hynod o fodern: creu gofal ysbyty o safon fyd eang drwy ddatblygu system gydlynol o fewn yr ysbyty a thu allan, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac ystod llawn o sgiliau ac arbenigedd y staff. Gallai

geiriau'r Arglwydd Newton a ddyfynwyd ar ddechrau'r papur hwn fod yn eiriau fyddai Gweinidog Cymru yn yn eu llefaru yn y Senedd wythnos yn ôl!

Esgorodd *The Hospital Plan* ar rwydwaith o 'Ysbytai Cyffredinol Dosbarth' yn cynnwys rhwng 600 ac 800 o welyau i wasanaethau poblogaethau rhwng 100,000 a 150,000. Mae'r sylfeini allweddol hyn yn dal i fodoli ar draws Cymru 50 mlynedd yn ddiweddarach, ond mae'r gofal maen nhw'n ei ddarparu wedi newid a'i addasu i gwrdd ag amgylchiadau sydd wedi newid:

Er enghraifft...	*... sy'n golygu*
Mae gofal sylfaenol yn canfod cleifon sydd mewn perygl ac yn eu rheoli'n rhagweithiol	Roedd cleifion â chlefyd siwgr yn arfer mynd i mewn i'r ysbyty i gychwyn ar eu hinsiwlin… nawr caiff ei wneud yn y gymuned
Mae hyd arhosiad mewn ysbyty yn fyrrach o lawer	Mae llawer o lawdriniaethau'n cael eu gwneud fel achosion dydd
Mae technoleg yn caniatâu i gleifion gael gofal arbenigol yn nes adref	Mae llawer o ofal canser a mwyafrif o wasanaethau iechyd meddwl nawr yn digwydd yn y gymuned
Mae staff wedi datblygu rolau newydd	Llawer o wasanaethau nawr yn cael eu harwain gan staff anfeddygol

Rhaid i newidiadau yn y meysydd hyn a meysydd eraill barhau ar y cyd ag unrhyw newidiadau yng nhrefniant gwasnaethau ysbytai.

3. YSBYTAI O SAFON FYD EANG

I. DIOGELWCH AC ANSAWDD

Mae nifer o ffyrdd y gellir diffinio diogelwch ac ansawdd gwasanaethau ysbytai. Ystyrir tystiolaeth dau o'r ffyrdd pwysicaf yma. Canlyniadau clinigol ydy'r mesurau gwrthrychol llwyddiant hynny sydd bwysicaf i gleifion, megis marwolaeth ac anabledd y mae modd eu hosgoi. Mae modelau gwasanaeth yn disgrifio'r modd y darperir rhannau o'r gwasanaeth – er enghraifft, mathau o lawdriniaethau, gofal strôc, genedigaeth. Mae ystyried y ddau yn ein helpu i ateb y cwestiwn: **Beth sydd o'i le ar batrwm presennol ein gwasanaethau ysbytai?**

Ceir gwybodaeth bellach ar y data a grynhoir yn y ddogfen hon yn y papur cysylltiedig, Ansawdd a Diogelwch. Dylid darllen y drafodaeth hon ar ddiogelwch ac ansawdd ar y cyd â'r adran nesaf, sef y Gweithlu, sy'n ystyried a all prinder grwpiau penodol ynddo'i hun fod yn fygythiad i ansawdd a diogelwch.

A. Canlyniadau clinigol

Defnyddir data ar farwolaethau yn ysbytai Cymru i lunio Mynegai Marwolaethau wedi'u haddasu yn ôl Risg (RAMI). Mae hwn yn ceisio addasu cyfraddau 'syml' marwolaethau ar gyfer y gwahaniaethau rhwng cleifion sydd ddim o ganlyniad i ofal mewn ysbyty – er enghraifft, oed, rhyw, neu ddifrifoldeb cyflwr wrth fynd i mewn i ysbyty. Mae'r rhain wedyn yn cael eu cymharu'n fras â grŵp tebyg o ysbytai Lloegr i sefydlu a oes gwahaniaeth rhwng y canlyniadau a allai fod o achos y gofal ysbyty ei hun. Yn union fel unrhyw

dechneg ystadegol, dydy'r broses o asesiad risg ddim yn berffaith, ac mae'n bosibl bod o leiaf rhai o'r gwahaniaethau a welwyd yn ganlyniad i ffactorau dieithr megis y gwahaniaethau yn y mathau o ysbytai a gymharwyd, neu argaeledd gofal hospis yn lleol. Felly, dylid defnyddio'r data a gyflwynir yma yn ofalus. Mae'r data hwn hefyd yn cuddio'r gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau yn Lloegr.

Mae Ffigwr 2 yn dangos y gymhariaeth gyffredinol rhwng ysbytai Cymru a Lloegr, a gwelwn fod patrwm hynod o debyg (gwelliant) rhwng y ddwy wlad, ond bod perfformiad Cymru yn gyson waeth:

Ffigwr 2: Tueddiadau marwolaethau a addaswyd yn ôl risg 2009-11, Cymru a Lloegr



O ystyried yn fwy gofalus yr arbenigeddau ehangach o fewn y darlun cyffredinol, mae'n ymddangos bod meddygaeth gyffredinol yn dilyn patrwm tebyg (Ffigwr 3):

Ffigwr 3: Tueddiadau marwolaethau Meddygaeth Gyffredinol a addaswyd yn ôl risg, 2009-11, Cymru a Lloegr



Ym maes llawdriniaeth gyffredinol, mae'r bwlch rhwng Lloegr a Chymru i'w weld yn ehangu (Ffigwr 4):

Ffigwr 4: Tueddiadau marwolaethau Meddygaeth Gyffredinol a addaswyd yn ôl risg, 2009-11, Cymru a Lloegr



Ac y mae amrywiaethau sylweddol rhwng gwahanol Fyrddau Iechyd Cymru (Ffigwr 5):

Ffigwr 5: Marwolaethau a Addaswyd yn ôl Risg, Llawdriniaeth Gyffredinol, Byrddau Iechyd Cymru a hefyd Lloegr, 2010/11



Ym maes trawma ac orthopaedeg, mae'r bwlch rhwng y ddwy wlad yn ymddangos ei fod yn culhau (Ffigwr 6). Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Cymru'n cael anhawster i gynnal safonau diogel pan fydd galwadau tymhorol ar eu hanterth:

Ffigwr 6: Tueddiadau marwolaethau Trawma ac Orthopaedeg a addaswyd yn ôl risg, 2009-11, Cymru a Lloegr



Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn amcangyfrifiad 'mynegai marwolaethau ychwanegol y gaeaf', sy'n dangos bod Cymru'n aml yn perfformio'n waeth nag ardaloedd tebyg yn Lloegr (Ffigwr 7):

Ffigwr 7: Mynegai marwolaethau ychwanegol y gaeaf*, oed 0-64, yn ôl ardal, o 2005/6 at 2010/11*



Ym maes gofal strôc, cafwyd gwelliant amlwg yn y canlyniadau ers i Goleg Brenhinol y Meddygon gynnal archwiliad seminaidd (Ffigwr 8):

Ffigwr 8: Marwolaethau mewn ysbytai o fewn 30 diwrnod i dderbyn brys ar gyfer Strôc, Cymru, 2010-11



Fodd bynnag, mae data mis Rhagfyr 2011 yn dangos amrywiaeth eang mewn perfformiad rhwng ysbytai o ran cydymffurfio â'r safonau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer diwrnod cyntaf hollbwysig ôl ofal strôc. Mae'r rhain yn amrywio o dros 95% o gydymffurfiad mewn pedair o'r pymtheg ysbyty sy'n darparu gofal strôc yng Nghymryu hyd at o dan 50% o gydymffurfiad mewn dwy ysbyty.

Mae'n ymddangos bod marwolaethau ar ôl derbyn ar frys ar ôl trawiad yng Nghymru (Ffigwr 9):

Ffigwr 9: Marwolaethau mewn ysbyty o fewn 30 diwrnod i gael eu derbyn ar frys oherwydd trawiad, Cymru, 2010-11



Seilir ffurf arall o ddata canlyniadau ar archwilio adrannau unigol a chymharu'r hyn y maen nhw wedi'i gyflawni gydag unedau tebyg mewn rhywle arall. Un o'r mwyaf ydy bas data Rhwydwaith Ymchwil

Archwiliad Trawma (TARN) sy'n darparu gwybodaeth fanwl am berfformiad a chanlyniadau ar gyfer adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Yn anffodus, dim ond chwech o'r 13 Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys a ddarparodd ddata ar gyfer Bas data TARN. Mae Ffigwr 10 yn darparu crynodeb o fesur y rhai a oroesodd yn annisgwyl neu farwolaethau rhwng 2008 a 2011 lle mae 0 yn awgrymu perfformiad cyfartalog a nifer positif yn well na'r cyfartaledd. Mae'r data hyn yn gyffredinol dda, ond yn anffodus does dim data ar gael ar gyfer dros hanner unedau Cymru:

Ffigwr 10: Canlyniadau cymharol Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Cymru, 2008-11

Bwrdd Iechyd Lleol	Ysbyty	Cyfradd Goroesi
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Prifysgol Cymru	2.9 ychwanegol a oroesodd/100 o gleifion
Betsi Cadwaladr	Glan Clwyd	0.2 ychwanegol a oroesodd/100
	Wrecsam Maelor	1.6 ychwanegol a oroesodd/100
	Ysbyty Gwynedd	2.7 ychwanegol a oroesodd/100
Abertawe Bro Morgannwg	Treforys	1.7 ychwanegol a oroesodd/100
	Tywysoges Cymru	0.7 mwy o farwolaethau/100
Aneurin Bevan	Nevill Hall	Dim data
	Brenhinol Gwent	
Cwm Taf	Brenhinol Morgannwg	
	Tywysog Cymru	
Hywel Dda	Bronglais	
	Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru	
	Llwynhelyg	

Dimensiwn arall a gafodd lawer o sylw yn Lloegr a Chymru fel ei gilydd yn ddiweddar ydy effaith pa ddiwrnod o'r wythnos y derbynnir cleifion. Yn y ddwy wlad, mae tystiolaeth sy'n peri pryder bod cleifion sy'n cael eu derbyn yn ystod y penwythnos – ac yn enwedig ar Ddydd Sul – yn fwy tebygol o farw na'r rhai a dderbyniwyd rhwng Ddydd Llun a Dydd Gwener (Ffigwr 11):

Ffigwr 11: Marwolaethau mewn ysbyty fesul dydd y derbyn, Cymru, 2010-11

Tabl 3: Graddfa Marwolaethau heb gyfri Pediatreg, Obstetreg a Bydwreigiaeth yn ol Dydd Derbyn ac Ysbyty

Ysbyty Derbyn	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul	Cymhareb Perygl
Ysbyty Bronglais	4.99%	5.59%	4.41%	7.86%	6.53%	6.72%	4.15%	1.89
Ysbyty Glan Clwyd	6.13%	6.10%	6.26%	5.87%	5.30%	6.03%	6.39%	1.21
Ysbyty Gyffredinol Gorllewin Cymru	5.63%	5.15%	5.67%	4.92%	5.75%	6.94%	6.00%	1.41
Ysbyty Treforys	4.62%	5.13%	5.41%	4.93%	5.93%	5.23%	6.00%	1.30
Ysbyty Nevill Hall	4.76%	4.51%	4.32%	5.15%	5.73%	5.00%	6.86%	1.59
Ysbyty Tywysog Siarl	5.50%	4.69%	4.97%	4.58%	5.36%	5.24%	6.48%	1.42
Ysbyty Tywysoges Cymru	7.60%	7.06%	6.82%	8.06%	7.18%	8.41%	8.06%	1.23
Ysbyty Frenhinol Morgannwg	6.00%	6.32%	5.94%	6.75%	5.41%	7.21%	7.68%	1.42
Ysbyty Frenhinol Gwent	3.97%	4.50%	4.82%	4.85%	4.36%	5.56%	5.65%	1.42
Ysbyty Prifysgol Cymru	5.56%	5.56%	5.21%	5.55%	6.13%	5.02%	5.90%	1.22
Ysbyty Llwynhelyg	5.63%	5.88%	5.19%	6.66%	5.56%	7.25%	6.63%	1.40
Ysbyty Maelor Wrecsam	4.71%	5.28%	5.15%	5.53%	5.37%	5.86%	6.01%	1.28
Ysbyty Gwynedd	6.44%	5.59%	5.29%	4.79%	4.86%	4.97%	4.80%	1.34
Cyfanswm	**5.35%**	**5.36%**	**5.32%**	**5.54%**	**5.49%**	**5.90%**	**6.22%**	**1.17**

Nodiadau: Mae'r data'n cyfeirio at ryddhau o'r ysbyty rhwng Medi 2010 ac Awst 2011 yn gynwysedig
Mae'r data yn ymweud â derbyn ar frys i'r ysbyty yn unig
Mae'r data yn ymdrin â chleifion oedd angen triniaeth arbenigol ac eithrio Pediatreg, Obstetreg a Bydwreigiaeth
Mae 'Ysbyty Freninol Morgannwg' yn cynnwys marwolaethau ym maes 'Gwasanaethau iechyd meddwl yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg'
Mae Ysbyty Gwynedd yn cynnwys marwolaethau yn 'Ysbyty Gwynedd (seiciatrig)'
Mae'r dydd o'r wythnos lle gwelir y raddfa uchaf o farwolaethau ym mhob ysbyty yn cael eu nodi mewn llwyd tywyll a'r dydd â'r raddfa isaf mewn glas golau
Cymhareb Perygl ydy cymhareb graddfa uchaf o farwolaethau ar y diwrnod gyda'r raddfa isaf o farwolaethau ar y diwrnod

Ffynhonnell : NWIS

Mae'r patrwm yn amrywio o arbenigedd i arbenigedd, ond prin ydy'r rhai sy'n sicrhau cysondeb drwy'r wythnos. Mae'n amrywio mewn mewn rhai arbenigeddau a hyd yn oed yn fwy amlwg na'r darlun cyffredinol – er enghraifft, marwolaethau cleifion sydd wedi torri pen y glun yn ardal asgwrn eu morddwyd yn seiliedig ar y diwrnod y cafodd y claf ei dderbyn (Ffigwr 12):

Ffigwr 12 Marwolaethau cleifion sydd wedi torri pen y glun yn ardal asgwrn eu morddwyd yn seiliedig ar y diwrnod y cafodd y claf ei dderbyn, Cymru, Medi 2010-Hydref 2011

Graddfa marwolaethau	Sul	Llun	Maw	Merch	Iau	Gwen	Sad	Cyfan	Cymhareb Perygl
Betsi Cadwaladr	6.0%	6.6%	5.9%	4.0%	7.9%	8.3%	4.9%	6.2%	2.1
Hywel Dda	2.4%	4.3%	4.4%	6.1%	5.9%	8.5%	5.7%	5.4%	3.6
Abertawe Bro Morgannwg	13.4%	4.0%	13.6%	6.2%	10.4%	10.9%	7.5%	9.2%	3.4
Caerdydd a'r Fro	14.9%	15.1%	9.1%	6.4%	5.5%	13.5%	7.8%	10.3%	2.7
Cwm Taf	5.7%	8.0%	9.4%	4.1%	8.8%	3.2%	13.2%	7.7%	4.1
Aneurin Bevan	7.9%	9.0%	3.8%	10.1%	4.3%	6.7%	9.0%	7.2%	2.6
Powys	0.0%	20.0%	3.7%	3.6%	4.0%	0.0%	0.0%	4.5%	
Cymru gyfan	8.0%	7.7%	7.0%	6.0%	7.2%	8.6%	7.5%	7.4%	1.4

Noder: i ddeall effaith y niferoedd foliwm dylid ystyried y graddfeydd marwolaethau ynghyd â nifer y marwolaethau/nifer y rhai dderbynnir i'r ysbyty.

Yn dynodi'r dydd â'r raddfa uchaf o farwolaethau
Yn dynodi'r dydd â'r raddfa isaf o farwolaethau
* Mae'r Cymhareb Perygl yn cymharu'r dydd gwaethaf gyda'r dydd gorau – e.e. mae cleifion Cwm Taf bedair gwaith yn fwy tebygol o farw ar y Sadwrn o'i gymharu â'r dydd Gwener.

Mae materion diffinio ac ansawdd yn peryglu'r holl ddata hwn a dylid eu trin i gyd gyda gofal. Fodd bynnag, maen nhw'n awgrymu bod yna achos i bryderu am ganlyniadau clinigol mewn arbenigeddau allweddol, ac yn ôl y diwrnod derbyn i'r ysbyty.

Nawr, ystyriwn y dystiolaeth sy'n cysylltu'r modelau gwasanaeth â chanlyniadau clinigol.

B. Modelau Gwasanaeth

Er bod data canlyniadau yn werthfawr i amlygu problemau, dydyn nhw ddim o anghenrhaid yn dangos achosion y problemau hyn, a gellir dehongli faint o ddylanwad mae trefniant yr ysbytai wedi cael arnyn nhw (o'u cyferbynnu â ffactorau eraill a adolygir yn Adran 3.1.C isod). Dull arall o fynd ati ydy ystyried sut mae gwasnaethau'n cael eu trefnu a gofyn cwestiynau: ydy modelau gwasanaeth ysbytai Cymru yn dilyn tystiolaeth am arferion da?

Neges fwyaf amlwg y dystiolaeth am fodelau gwasanaeth ydy ei bod yn amhosibl i gyffredinoli ar draws gwahanol arbenigeddau gofal iechyd cyfoes: mae'r materion yn aml yn wahanol, felly mae angen ystyried pob un yn unigol.

Yr ail ganlyniad, a'r un mwyaf rhwystredig, ydy nad oes gennym ddigon o dystiolaeth yn aml, i fod yn sicr am y trefniant perffaith. Mae gwneud ymchwil yn y maes hwn – sefydlu cyswllt argyhoeddiadol rhwng y modd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu a chanlyniadau - yn wirioneddol anodd, yn bennaf oherwydd bod cymaint o elfennau mewn model gwasanaeth, a bod cymaint o ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar ganlyniadau. Mae ystod o dystiolaeth o amryfal o hapdreialon graddfa fawr wedi'u rheoli (y dystiolaeth gryfaf), os ydy ymchwilwyr wedi ceisio ystyried yr holl newidynnau hyd at gonsensws barn arbenigwyr yn seiliedig ar dystiolaeth a fyddai'n amhendant. Yr un cyntaf ydy'r agosaf at 'brawf' a allwn ei

gael, ond yn eitha prin; mae'r un olaf yn llawer mwy cyffredin ac yn sicr yn werthfawr, ond dydy arbenigwyr ddim bob amser yn gywir a dylid trin eu barn yn ofalus. Yn y canol, mae corff cynyddol o astudiaethau sy'n chwilio am gysylltiadau ystadegol rhwng modelau a chanlyniadau, gan wneud ymgais i reoli newidynnau dryslyd.

Mae '*caveat'* arall: dydy prinder tystiolaeth am niwed ddim yn dystiolaeth bod prinder niwed. Mewn geiriau eraill, oherwydd na allwn 'brofi' bod model yn niweidiol, dydy hynny ddim yn golygu y dylwn gymryd yn ganiataol ei fod yn ddiogel. Mae angen rhagor o ymchwil bob amser!

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael fodd bynnag, mae nifer o arbenigeddau lle gallwn fod yn rhesymol sicr eim bod yn gwybod sut i drefnu gwasanaethau:

1. **Gwasanaethau Trawma Difrifol** (h.y. anafiadau niferus i wahanol feinweoedd a systemau organau sy'n peryglu bywyd neu a allai beryglu bywyd). Mae tystiolaeth o ganlyniadau buddiol pan gaiff cleifion trawma difrifol eu trin mewn canolfan sy'n arbenigo mewn trawma difrifol. Mewn blwyddyn arferol mae tua 1000 o gleifion yng Nghymru yn dioddef trawma difrifol:
    - Mae datganoli'r gofal i ganolfannau trawma arbenigol rhanbarthol yn gostwng cyfradd y marwolaethau o 25% a hyd yr arhosiad o 4 diwrnod
    - Mae canolfannau sy'n delio â swmp mawr o drawma yn gostwng cyfradd marwolaethau o anafiadau difrifol hyd at 50%
    - Yn anad dim, yr amser a gymer rhwng yr anaf yn digwydd a chael y llawdriniaeth derfynol sy'n penderfynu'r canlyniad mewn trawma difrifol (nid yr amser i gyrraedd yr adran argyfwng agosaf)
    - Mae cleifion trawma difrifol a gafodd eu trin yn y lle cyntaf mewn ysbytai lleol yn 1.5 hyd at 5 gwaith mwy tebygol o farw na chleifion a gafodd eu cludo'n uniongyrchol i ganolfannau trawma.
    - Gallai un ganolfan fel arfer wasanaethau poblogaeth o 3-4 miliwn.

2. **Trawma Cyffredinol a Gofal Mewn Argyfwng –** mae tystiolaeth ar gael ar gyfer rhai cleifion (megis cleifion yn dioddef o ymlediad toredig aortaidd yn yr abdomen) o ganlyniadau'n gwella wrth i faint yr uned gynyddu, ond nid yw'n ystadegol arwyddocaol. Yr hyn sy'n gwneud y mwyaf o wahaniaeth ydy gwasanaethau sy'n cwrdd â safonau clinigol ac yn dilyn llwybrau argymelledig yn gyson, waeth beth fo maint yr uned. Mae mwy a mwy o dystiolaeth bod canlyniadau'n well pan fo uwch feddygon yn bresennol 24/7 ac mae hyn yn mynd yn fwyfwy anodd i'w gyflawni mewn unedau llai:
    - Ceir canlyniadau gwell pan fo uwch feddyg ar gael ac wrth law 24/7
    - Ychydig o dystiolaeth (gwan) bod canlyniadau'n gwella ar gyfer rhai llawdriniaethau (e.e. ymlediad toredig aortaidd yn yr abdomen) yn ôl maint yr uned.
    - Mae cydymffurfio â safonau a llwybrau clinigol yn bwysicach na maint (yn aml mae ysbytai llai yn cydymffurfio'n well)
    - Gellir gostwng yr amser cyn i'r claf gael ei drin drwy ddarpariaeth symudol mewn rhai achosion.

3. **Gofal Strôc** – Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cleifion sy'n dod i mewn i adran 'uned strôc tra-aciwt') sy'n cydymffurfio â safonau gofal strôc aciwt yn fwy tebygol o gael gwell canlyniadau. Mae'n bwysig sicrhau mynediad diymdroi i ganolfan niwro lawdriniaethol ar gyfer nifer fechan iawn o gleifion a aseswyd eu bod yn addas ar gyfer tynnu clot. Byddai'r trefniant perffaith yn sicrhau'r canlynol (Ffigwr 13):

Ffigwr 13 Llwybr Strôc



4. **Gwasanaethau Gofal Mamolaeth a'r Newydd anedig –** Does dim tystiolaeth o gysylltiad cyson rhwng canlyniadau a maint uned ac fel y cyfryw, ni ellir dod i unrhyw gasgliad o'r ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi. I ferched a aseswyd eu bod yn isel eu risg, mae unedau bydwreigiaeth yn ymddangos yn ddiogel i'r babi ac yn cynnig manteision i'r fam ac mae'r un peth yn wir am eni yn eu cartref i ferched sy'n cael eu hail neu eu trydydd plentyn. Y cyngor proffesiynol y mae Canllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynaecolegwyr yn ei gynnig ydy y dylai unedau sy'n cynnig gofal obstetreg sicrhau lleiafswm oriau o bresenoldeb obstetryddion ymgynghorol pwrpasol ar y wardiau obstetreg bob wythnos. Byddai cwrdd â'r safon hwn yn debygol o arwain at lai o unedau obstetreg yng Nghymru o gofio'r nifer o obstetryddion sy'n ymarfer yng Nghymru.

5. **Gwasanaethau Pediatreg –** Does dim tystiolaeth o gysylltiad cyson rhwng canlyniadau a maint uned, ac fel y cyfryw, ni ellir dod i unrhyw gasgliad o'r ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi. Mae'r cyfarwyddyd a geir yn Safonau Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn argymell na ddylai unedau pediatreg bychan sy'n derbyn llai na 1800 o blant bob blwyddyn barhau i fodoli, onibai eu bod mewn lleoedd anghysbell. Byddai cwrdd â'r safon hwn yn arwain at lai o unedau pediatreg ar gyfer cleifion preswyl yng Nghymru er bod yr hyn mae'n ei olygu i wasanaethau pediatreg mewn ysbytai heb uned bediatreg breswyl yn llai eglur.

O ran arbenigeddau eraill, mae'r cyswllt rhwng maint uned/niferoedd cleifion ac ansawdd y gofal yn llai eglur. Er enghraifft, yn achos arbenigeddau llawdriniaethol, ceir tystiolaeth dda sy'n cysylltu canlyniadau cleifion â foliwm y *llawfeddyg unigol* yn hytrach na foliwm *yr ysbyty.* Daeth Gweithgor Ail-drefnu o Goleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr 2006 i'r casgliad y gellid, yn achos llawer o lawdriniaeth gyffredinol gyflawni'r cyfansymiau hyn drwy rwydweithio clinigol yn hytrach na thrwy ganolbwyntio ar safleodd ysbytai unigol.

Mewn achosion eraill, cysylltir canoli gyda gwelliant dramatig yn y canlyniadau. Yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, yn flaenorol, cynhaliwyd rhai llawdriniaethau arbenigol ar y llwnc a'r stumog ('oesophagectomi'

a ‘gastrectomi’) mewn pedair Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, ond bum mlynedd yn ôl, fe’u canolwyd mewn un ysbyty a chafwyd gwelliant sylweddol ym maes y llwnc - ‘oesophagectomi’:

- erbyn hyn mae ffigyrau goroesi pedair mlynedd yn dangos bod marwolaethau yn yr ysbyty yn 3% o’u cymharu â chyfartaledd y DU o 4.5%
- mae cyfraddau ail-lawdrinaieth yn 6% o’u cymharu â chyfartaledd y DU o 10%

ac ar gyfer maes gastrectomi:

- roedd marwolaethau yn yr ysbyty yn 5% o’i gymharu â chyfartaledd y DU o 6%
- mae cyfraddau ail-lawdriniaeth nawr yn 1% o’u cymharu â chyfartaledd y DU o 7%

Mae teuluoedd cleifion yn cael cynnig llety mewn gwesty os ydyn nhw wedi teithio o bell, yn enwedig yn ystod y dyddiau cynnar ar ôl llawdriniaeth.

Fodd bynnag, mae’r fffaith bod rhai o’r arbenigeddau yn dibynnu ar ei gilydd yn cymhlethu pethau ymhellach. Y syniad oedd wrth wraidd ysbytai Dosbarth yn 1962 oedd ceisio sefydlu clwstwr o arbenigeddau yn dibynnol ar ei gilydd mewn un lle. Yn y 50 mlynedd canlynol, mae’r manylion wedi newid, ond mae’r egwyddor yn parhau. Er enghraifft, yn achos gofal mewn argyfwng, nawr derbynnir yn gyffredinol bod angen lleiafswm set o wasanaethau aciwt ar y safle i ddarparu adran gwasanaeth diogel ar gyfer argyfwng. (Ffigwr 14):

Ffigwr 14 Gwasanaethau sydd eu hangen i gynorthwyo adran argyfwng

Cymorth Ar y Safle drwy Fynediad 24 Awr ar gyfer:
Meddygaeth Aciwt
Gofal Critigol Lefel Dau
Uned Gofal Coronari Heb fod yn Driniaeth drwy’r Croen
Labordy Gwasanaethau Hanfodol (biocemeg, haematoleg, trallwysiad gwaed, rheoli haint a gwasanaethau mortiwari)
Radioleg Diagnostig (Pelydr-X, uwchsain a Sgan CT)
Cymorth Mynediad Rhwydwaith 24 Awr i Drefn o Ysbytai Lleol sy’n Cyd-rannu Gwasanaethau (ddim o anghenraid ar y safle) ar gyfer:
Llawdriniaeth Frys
Trawma & Orthopaedeg
Pediatreg
Obstetreg & Gynaecoleg
Iecdyd Meddwl
Llawdriniaeth a Oruchwylir
Radioleg sy’n golygu triniaeth drwy’r croen

Felly, hwyrach bydd rhaid i rai arbenigeddau newid neu ail-leoli, nid oherwydd bod eu model gofal yn annigonol ond er mwyn dilyn arbenigeddau eraill sy’n ddibynnol arnyn nhw.

C. Penderfynyddion eraill ar ansawdd a diogelwch

Mae’r drafodaeth hyd yn hyn wedi canolbwytnio ar y cysylltiad posibl rhwng foliwm ac ansawdd/diogelwch y gofal, oherwydd profwyd taw hwn ydy un o’r elfennau lle ceir mwyaf o ddadlau yn ei gylch wrth aildrefnu gwasanaethau iechyd ar daws y DU. Ond ceir nifer o benderfynyddion eraill am ansawdd a diogelwch gwasanaethau ysbytai, sydd o leiaf wedi’u seilio yr un mor gryf ar dystiolaeth.

O fewn yr ysbytai eu hunain , rydyn ni'n gwybod er enghraifft bod y canlynol yn bwysig:

- Lefelau, cymhwysterau, hyfforddiant a'r defnydd o staff – mae llawer o waith wedi'i wneud ar staffio nyrsio, er enghraifft
- Yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer elfennau allweddol y system
- Cadw at y canllawiau a llwybrau gofal yn seilieidig ar dystiolaeth
- Cymhwyso tystiolaeth ymchwil

ac mae ansawdd a diogelwch y gofal mewn ysbyty yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan yr hyn sy'n digwydd tu allan, er enghraifft:

- Maint, ansawdd a threfniant gwasnaethau sylfaenol a chymunedol
- Yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned leol i ofalu am ei iechyd a'i les ei hun.

Mae llawer o'r ffactorau hyn yn amherthnasol i faint ysbyty; gellir sefydlu cydberthynas rhwng ffactorau eraill â maint ysbyty, weithiau'n gwbl groes. Yn fyr, gallai trefnu ysbytai fod yn elfen anghenrheidiol i sicrhau ansawdd a diogelwch, fydd e byth yn ddigonol ynddo'i hun.

D. Casgliadau

Er gwaetha'r holl 'caveats' angenrheidiol am y dystiolaeth, mae'n eglur:

- Na all cleifion mewn ysbytai yng Nghymru fod yn hyderus y bydd eu canlyniadau bob amser yn rhai 'cystal â'r goreuon yn unrhyw le', fel yr awgrymodd Comisiwn Bevan y dylai pethau fod
- Nad ydy rhannau allweddol o'r gwasanaeth ysbyty wedi eu trefnu fel dylen nhw fod

Bydd angen i'r GIG ystyried sawl math o ysbytai o wahanol fathau y gallan nhw eu cynnal os ydyw am sicrhau bod y canlyniadau i'r cleifion i fod y gorau posibl, ym mhob ysbyty, ar bob adeg yn ystod yr wythnos.

II. Y GWEITHLU

Mae'r adran hon yn adolygu lefelau staffio cyfredol elfennau allweddol o wasanaeth ysbytai Cymru, ar hyn o bryd a chyhyd i'r dyfodol ac y gellir ei ragweld, i weld os ydyn nhw'n creu unrhyw fygythiad i ansawdd a diogelwch y gwasanaethau. Yn y broses, y nod ydy helpu i ateb y cwestiwn: **Mae ganddon ni fwy o staff nag erioed, felly beth ydy'r broblem?** Mae'r ffocws yn bennaf ar y staff meddygol, oherwydd mai yno, yn ôl yr honiad, mae'r problemau mwyaf i'w cael, ond caiff rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar staff eraill yn y sector ysbytai hefyd eu hadolygu'n fras. Ceir rhagor o wybodaeth yn y papur atodol ar Y Gweithlu.

A. Staffio Meddygol: Y Storom Berffaith

Wrth ystyried lefelau staffio meddygol mewn ysbytai yng Nghymru, yn syth y mae yna baradocs: mae gennym fwy o feddygon ysbytai yng Nghymru nag erioed o'r blaen (yn y deng mlynedd diwethaf, mae niferoedd meddygon ysbytai yng Nghymru wedi cynyddu 49% (+1,807 o swyddi llawn amser cyfwerth), yn

cynnwys cynnydd o 66% o ymgynghorwyr (+836)), ac eto mae llawer o sôn am brinder difrifol mewn ardaloedd allweddol. Sut gall y ddau beth fod yn wir?

Erys yr ateb yn y 'storom berffaith' lle gostyngir argaeledd a chynyddir y galw:

- Gostyngiad yn y mewnbwn meddygol sydd ar gael: er bod cyfanswm y niferoedd wedi cynyddu, mae'r amser clinigol a ddarperir gan bob meddyg wedi gostwng wrth i effaith y canlynol gael ei weithredu:
  - Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd: rhwng 2007 a 2011, cynyddodd nifer y doctoriaid oedd yn hyfforddi yng Nghymru o 2748 hyd at 2810, ond gostyngodd nifer yr oriau gwaith wythnosol o 134,206 i 126,651; a
  - newidiadau i'r contract i feddygon ymgynghorol: yn 2004, ar gyfartaledd roedd ymgynghorwyr yn gweithio cyfanswm o 11.5 sesiwn yr wythnos, gyda 9.3 yn rhai clinigol; erbyn 2010 roedd hyn wedi gostwng i fod yn 10.4, gyda 7.9 yn rhai clinigol.

  Cymhlethir hyn fwy-fwy gan fod
  - meddygon dan hyfforddiant (yn arbennig merched) yn gynyddol yn dewis gweithio llai o oriau er mwyn sefydlu gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd: ar hyn o bryd mae 7.5% (203) o feddygon dan hyfforddiant yn gweithio llai na llawn amser.
- Cynnydd yn y lleiafswm sy'n ddisgwyliedig ar gyfer meddygon:
  - O ganlyniad i'r newidiadau nodwyd uchod, bu adolygiad yn nifer yr ymgynghorwyr sydd eu hangen ar gyfer rotas y staff: mewn meysydd arbenigedd mawr, megis trawma a llawdriniaeth cyffredinol, bellach mae angen 8 ymgynghorydd i gynnal rota weithredol.
  - Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr adran flaenorol am effaith niweidiol prinder staff hŷn i weithredu 24/7 wedi cynyddu rhagor yn y galw am uwch staff.
- Problemau recriwtio mewn rhai meysydd arbenigedd, yn aml drwy'r holl DU, wedi ei gymhlethu weithiau gan batrymau hyfforddi annymunol, (e.e. lle mae meddygon iau yn teimlo nad ydyn nhw'n cael digon o oruchwyliaeth) a thrwy gyflenwad cyfnewidiol o ddoctoriaid tramor.
- Tuedd tymor hir i gael rhagor o is-arbenigedd – ar un adeg, disgwylid i arbenigwyr wneud llawdriniaethau ar amrywiaeth o rannau o'r corff – i drin pob math o gyflyrau. Dros gyfnod, fodd bynnag, daeth nifer o feysydd arbenigol i'r amlwg. Er enghraifft, ar hyn o bryd, dyma rai o'r meysydd arbenigol sydd heb fod yn rhai llawfeddygol: Cardiothorasig; Llawfeddygaeth Niwro; Llawfeddygaeth y genau a'r wyneb; Otolaryngoleg (ENT); Llawfeddygaeth Pediatrig; Llawfeddygaeth Blastic; Trawma ac Orthopaedeg (T&O); Wroleg; Llawfeddygaeth Gyffredinol. O fewn Llawfeddygaeth Gyffredinol mae nifer o 'Feysydd o Ddiddordeb Cyffredinol', gan gynnwys Gastroberfeddol Uchaf; Colorectal; Fasgiwlar; Brest ac Oncoplastig; Trawsblaniadau; Endocrin. gwelir patrwm tebyg ym maes meddygaeth. Mae hyn yn gwneud ysbytai bach yn llai deniadol i lawer o ddarpar ymgynghorwyr, ac yn cynyddu'r galw cyffredinol am ymgynghorwyr.

Gwelir effaith y newidiadau cydamserol hyn yn y trafferthion recriwtio ar hyd a lled Cymru. Dengys ffigwr 15 y meysydd arbenigol lle mae Byrddau Iechyd Lleol yn cael trafferthion recriwtio. Nid yr oedi sy'n aml yn dod yn sgil prosesau biwrocrataidd penodi mo'r rhain: Mae'r rhain yn broblemau parhaus, lle bydd adrannau'n ceisio llanw bylchau gyda staff dros-dro, ac yn aml yn cael prinderau staff difrifol a llawn stres – ac weithiau'n llawn risg:

Ffigwr 15: Problemau recriwtio staff meddygol yn ôl Arbenigedd: Cymru

Arbenigedd	Nifer Byrddau Iechyd â thrafferthion recriwtio	Prinder Cenedlaethol?
Damweiniau&Argyfwng (A&E)	6	Oes
Pediatreg	6	Oes
Iechyd Meddwl/CAMHS	6	Oes
Radioleg Clinigol	4	Na
Meddygol/Geriatreg*	4	?
Anaestheteg	3	Oes
Microbioleg	3	Oes
Obstetreg a Gynaecoleg	3	Oes

*Ffynhonnell: Cynlluniau gweithlu Byrddau Iechyd Lleol 2010/11 *Yr is-arbenigedd heb fod yn eglur*

Mae hefyd effaith ariannol ar y prinderau hyn. Mae costau staff meddygol o asiantiaethau, er enghraifft, yn uchel ac yn cynyddu yng Nghymru (Ffigwr 16):

Ffigwr 16 Dadansoddiad Asiantaethau yn y 6ed mis 2011/12

	Blwyddyn Lawn 2010/11	2011/12 hyd at fis Medi
Abertawe Bro Morgannwg	£3.282 m	£2.023 m
Aneurin Bevan	£2.031 m	£1.027 m
Betsi Cadwaladr	£13.351 m	£7.083 m
Caerdydd a'r Fro	£2.67 m	£1.296 m
Cwm Taf	£3.977 m	£2.085 m
Hywel Dda	£5.275 m	£3.357 m
Powys	£0.217 m	£0.062 m
Iechyd Cyhoeddus	£0.017 m	£0 m
Felindre	£0.146 m	£0.003 m
Ambiwlans Cymru	£0 m	£0 m
Cyfanswm	**£30.966 miliwn**	**£16.936 miliwn**
Rhagfynegiad i ddiwedd y flwyddyn		£33.872 miliwn

B. Arbenigedd dan bwysau

Gyda'r cefndir hwn o'r 'storom berffaith', mae rhai meysydd arbenigedd a hyfforddiant wedi eu heffeithio'n arw iawn, ynghyd â rhai o'r mannau mwy diarffordd o Gymru. Gall tensiynau godi rhwng anghenion i GIG i feddygon dan hyfforddiant i gadw'r gwasanaethau i fod yn hyfyw, ac oblygiadau'r Ddeoniaeth Ôl-radd, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Colegau Brenhinol ac eraill i sicrhau lefelau digonol o hyfforddiant a phrofiad perthnasol a dilyniant proffesiynol. Mewn marchnad recriwtio sy'n agored i'r DU, gall dymuniadau'r hyfforddai eu hunain fod yn arf pwerus i newid pethau. Mae'r pedwar maes isod yn dangos ble mae'r pwysau yn ei anterth yng Nghymru:

1. **Pediatreg –** Mae recriwtio ym maes Pediatreg wedi bod yn isel dros y 2-3 blynedd diwethaf, a does dim argoelion yng Nghymru na thrwy'r DU y bydd y sefyllfa'n cael ei datrys yn y tymor byr na chanolig. Fel dengys Ffigwr 15, mae pob un o Fyrddau Iechyd Cymru yn cael trafferthion recriwtio parhaus yn y maes arbenigol hwn. Mae hyn yn creu problemau penodol gan fod yna ormod o unedau pediatrig i gleifion preswyl, ac felly gormod o rotas staff meddygol, ar gyfer y niferoedd o ddoctoriaid sydd ar gael. Mae nifer o rotas na ellir bellach eu staffio mewn modd sy'n cydymffurfio a dyma'r broblem sydd ar y funud yn gorfod cael ei hwynebu mewn tri o'r byrddau iechyd. Yn y rownd recriwtio ddiweddaraf penodwyd 11 lle roedd 20 swydd wag. Mae arolwg y GMC yn dangos bod baich gwaith hyfforddai Pediatrig yng Nghymru ymhlith yr uchf yn y DU, ac yng Nghymru mae'r esiamplau isaf a'r ail isaf yn y DU o gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Mae hyn i gyd wedi arwain i'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru i ddatgan *'nad oes modd i'r ddarpariaeth pediatrig i gleifion preswyl yng Nghymru fod yn gynaliadwy drwy lawn weithredu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn 2009. Mae gan Gymru ormod o unedau pediatreg cleifion preswyl gyda gormod o rotas graddfeydd canolig. Mae dirfawr angen gostwng nifer yr unedau pediatreg cleifion preswyl a chynyddu'n sylweddol y nifer o Ymgynghorwyr yng Nghymru'.*

2. **Meddygaeth argyfwng** – mae hyn yn broblem drwy'r DU i gyd. Mae'r GMC ar y funud yn cynnal adolygiad o'r 'cover' ym maes Meddygaeth Argyfwng ym mhob adran ar hyd a lled y DU. Mae gofid penodol am arolygaeth Doctoriaid Sylfaen dros nos yn yr adrannau Damwain ac Argyfwng. Mae'r Ddeoniaeth wedi ceisio lleihau hyn yng Nghymru, ond bod angen adolygiad ar fyrder o'r mannau lle gosodir yr hyfforddiant, gan ei fod wedi ei daenu'n rhy denau rhwng gormod o adrannau. Mae pob un o Fyrddau Iechyd Cymru yn cael trafferthion recriwtio parhaus yn yr arbenigedd hwn (Ffigwr 15). Dengys arolwg y GMC bod baich gwaith Damweiniau ac Argyfwng (A&E) yng Nghymru yr uchaf yn y DU. Dydy hyn ddim yn help i'r broses recriwtio. Mae Cymru tua'r hanner isaf o ran cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Eleni mae hanner y nifer o ddoctoriaid graddfa ganol yn y broses benodi a dim ond 11 penodiad a wnaed lle roedd 20 swydd wag.

- A major justification for compulsory display is claimed to be the opinion poll from Consumer Focus Wales, indicating that 94 per cent of consumers want to see FHRS scores displayed compulsorily. However, the research failed to ask the preliminary question: do you understand the ratings? Since only 50 per cent of respondents had even heard of the scheme, then 44 per cent were asking for something they had never heard of. Even if they were among the 50 per cent who had heard of the scheme, we suspect that very few will understand the significance of the scoring system, beyond the point made above that consumers will intuitively be happy to eat if the score is 3 or above

- We do believe that Local Authorities should be compelled to follow the national scheme to ensure a consistent approach and less confusion for consumers. However, we would much have preferred that Wales adopted the 'pass'/ 'improvement required' Food Hygiene Information Scheme operating in Scotland, which is simpler for both consumers and operators to understand."

- We also believe that there should be no variation in Wales whatsoever from the FHRS branded scheme which has been developed by the FSA and the UK Steering Group which covers issues such as re inspection, appeals, scoring, application to food premises etc. Any variation will add to the costs of multi site businesses who operate not only in Wales but also England and will cause confusion for consumers who have had to deal with a plethora of different schemes run by local authorities.

- We do not believe that operators should be required to pay for re inspection. Encouraging small to medium enterprises to improve their standards without additional cost burdens should be inherent in the scheme.

Question 2 Do you agree that assessments of the food hygiene standards of an establishment carried out prior to the commencement of this Act can be used as the basis of a rating under the mandatory scheme?

We do not agree with mandatory display but it makes sense for all businesses who are inspected under FHRS to be able to display their ratings.

Question 3: Do you agree that all food businesses supplying food directly to consumers should be included in the scope of the FHRS?

Yes

Question 4: Are there any food business establishments that provide food directly to consumers that you think should be exempt from the FHRS?

Very low risk premises selling wrapped confectionery, sweets etc

Question 5: Should those businesses involved in food business-to-business trade be included in the scope of the FHRS?

Yes

Question 6: Do you have any comments on the appeals process including the timescales? Please provide details of how the appeals process could be strengthened. Comments:

See answer to Q1

Question7: Do you think summary inspection reports (in addition to the Food Hygiene Rating Scores) should be routinely published on an FSA's website or otherwise made available?

No, summary reports can be misleading

Question8: Do you think the operator should be required to display the FHRS sticker at their establishment in a place where consumers can see it easily? Or you have any suggestions on where this location should be?"

No, some premises have more than one entrance e.g. a hotel may have a separate entrance to a banqueting room to that of the restaurant or it may have a main external entrance (maybe 2) and the internal entrance to the restaurant. Some quick service restaurants have a restaurant and often a drive through. In our view food businesses should be provided with a sticker but then given flexibility where or whether they display that sticker.

Question 9: Are the requirements in relation to the duty to remove out of date or invalid food hygiene rating stickers from display practical and reasonable

Yes

Question 10: Do you think that the list of offences is reasonable?

See answer to Q1

Question 11: Should all operators be required to display the food hygiene rating certificate at the premises in addition to the food hygiene rating sticker?

See answer to Q1

Question 12: Do you think the publication of the "right of reply" gives sufficient voice to the operator?

See answer to Q1

Question 13: Do you agree that operators that have actively taken steps to improve their food hygiene rating should be allowed to apply for a re-rating, rather than have to wait until their next planned inspection?

Yes

Question 14: Do you agree that food authorities should be required to charge operators the reasonable cost of undertaking a re-rating inspection?

No

Question 15: Should any food establishments be excluded from the charge for re-rating inspections?

No see answer to Q14

Question 16: Do you have any comments on the duties of the FSA? Are there any omissions? If so, please provide details:

No

Question 17: Do you think it is useful for a sticker to be displayed which informs customers that a food hygiene rating has not yet been issued to the food business establishment?

YES

Question 18: Is a level 3 fine (currently £1000) in relation to offences committed under the legislation appropriate?

See Answer to Q1

Question 19: Do you think food authorities should have the ability to issue Fixed Penalty Notices

See answer to Q1

Question 20: Do you consider the discounted penalty (£150) for early payment (within 14 days) of a Fixed Penalty Notice provides an appropriate discount for early payment?

See answer to Q1

Question 21: Do you agree with the preferred option in the Regulatory Impact Assessment (option 4 – Introduce the mandatory scheme with cost recovery for food hygiene re-rating inspections)?

No see answer to Q1

Question 22: Do you agree with the estimated costs/benefits regarding the implementation of this Bill?

No see answer to Q1

Question 23: Do you have any comments on the expected costs to food businesses and food authorities? :

See answer to Q1

Question 24: Please provide your comments on the impact that the introduction of a mandatory food hygiene rating scheme will have on: small businesses, the voluntary sector, equality, sustainable development, rural issues and the Welsh Language:

The proposal for charging for re inspection will disproportionally affect SME's and the voluntary sector and therefore damage their sustainability from an economic point of view. Many SME's are already subject to a high level of regulation in comparison to their size and the vast majority desire a supportive culture rather than that of regulation, enforcement and prosecution.

Wales has the opportunity to reinforce a "Welcome Culture" through communication, cooperation and commitment.

We should be pleased to discuss this response further with you. I confirm that we have no objection to it being made publicly available.

John Dyson

Food and Technical Affairs Adviser

British Hospitality Association

Eitem 5 Pecyn dogfennau cyhoeddus

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Iau, 28 Mehefin 2012**
Amser:	**09:00 – 15:25**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_28_06_2012&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200002_28_06_2012&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**Mark Drakeford (Cadeirydd)** **Mick Antoniw** **Rebecca Evans** **Vaughan Gething** **William Graham** **Elin Jones** **Darren Millar** **Lynne Neagle** **Lindsay Whittle** **Kirsty Williams**
Tystion:	**Mr Phil Banfield, BMA Cymru** **Mr Bryan Beattie, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr** **Julia Chandler, Coleg Brenhinol y Bydwragedd** **Elizabeth Duff, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant** **Polly Ferguson, Llywodraeth Cymru** **Professor Jason Gardosi, Sefydliad amenedigol Gorllewin Canolbarth Lloegr** **Fiona Giraud, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** **Shirley Gittoes, Sands** **Dr Alexander Heazell, Canolfan gwyddorau iechyd academaidd Manceinion** **Angela Hopkins, Bwrdd Iechyd Cwm Taf** **Dr Siobhan Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru** **Isobel Martin, Cronfa ymchwil marw-enedigaeth Holly Martin** **Dr Shantini Paranjothy, Arolwg Amenedigol Cymru gyfan** **Dr Heather Payne, Prif Swyddog Feddygol,**

	Llywodraeth Cymru **Janet Scott, Sands** **Prof Gordon Smith, Y Gynghrair Marw-enedigaethau Rhyngwladol** **Dr Mark Temple, BMA Cymru** **Marilyn Wills, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant** **Dr Jean White, Llywodraeth Cymru**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Dafydd (Clerc)** **Mike Lewis (Dirprwy Glerc)** **Victoria Paris (Ymchwilydd)**

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar ar gyfer y sesiynau a gynhaliwyd yn y bore a'r prynhawn, a chan Lindsay Whittle ar gyfer y sesiwn a gynhaliwyd yn y bore.

2. Ymchwiliad un-dydd i farw-enedigaethau yng Nghymru - Tystiolaeth lafar

2.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar farw-enedigaethau yng Nghymru.

2.2 Cytunodd Siobhan Jones i gadarnhau a yw Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol ethnig ar y mater o farw-enedigaethau, ac i ddarparu enghreifftiau o'r gwaith hwnnw os felly.

3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin.

4. Cynnig dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu atal y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac ar gyfer y cyfarfod ar 4 Gorffennaf ar gyfer eitem 1

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

5. Ymchwiliad un-dydd i farw-enedigaethau yng Nghymru - Trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar farw-enedigaethau yng Nghymru.

TRAWSGRIFIAD

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2012**
Amser:	**09:15 – 11:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_04_07_2012&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**Mark Drakeford (Cadeirydd)** **Mick Antoniw** **Rebecca Evans** **Vaughan Gething** **William Graham** **Elin Jones** **Darren Millar** **Lynne Neagle** **Lindsay Whittle** **Kirsty Williams**
Tystion:	**Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru** **David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Dafydd (Clerc)** **Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)** **Victoria Paris (Ymchwilydd)**

1. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – trafod y prif faterion

1.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion sy'n codi ar gyfer yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn ar gais y Pwyllgor:

- Enghreifftiau o ysbytai cyffredinol dosbarth yn y DU lle ni ddarperir gwasanaethau aciwt;
- Copi o'r asesiad annibynnol o'r ymarfer ar ymgysylltiad y cyhoedd a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda fel rhan o'i gynlluniau ailgyflunio.

4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 20 Mehefin.

TRAWSGRIFIAD

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-23-12 papur 5

Ymchwiliad i Ofal Preswyl i Bobl Hŷn – Nodyn o gyfarfod y Grŵp Cyfeirio ar 24 Mai 2012

Cefndir

1. Sefydlodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol grŵp cyfeirio ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yn ystod gwanwyn 2012. Mae'r grŵp yn cynnwys y rhai a fu'n cynorthwyo ffrindiau neu aelodau o'r teulu mewn lleoliadau gofal preswyl yn ddiweddar, sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd, neu sy'n wynebu gwneud hynny yn y dyfodol.

2. Rôl y grŵp cyfeirio allanol yw rhoi barn i'r Pwyllgor ynghylch y prif faterion a fynegwyd yn ystod yr ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys eu barn ynghylch y graddau y mae'r wybodaeth a ddarperir yn y dystiolaeth yn adlewyrchu eu profiadau personol eu hunain, a'r graddau y maent yn cytuno â'r cyfeiriad polisi presennol ym maes gofal preswyl i bobl hŷn.

3. Bydd y grŵp cyfeirio yn cyfarfod bob mis yn ystod y cyfnod o gasglu tystiolaeth lafar, gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd eisoes a chynnig mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn mewn sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol. Bydd y grŵp cyfeirio yn cytuno ar bob nodyn a lunnir o'i gyfarfodydd cyn eu cyhoeddi.

Crynodeb

4. Cyfarfu'r grŵp ar 24 Mai 2012 i drafod y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 26 Ebrill a 2 Mai 2012. Yn ystod y ddau sesiwn hyn, ystyriwyd rôl darparwyr y trydydd sector a modelau amgen ar gyfer darparu.

5. Bu'r grŵp hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu gofal, a chwestiynau y gellid eu gofyn yn y sesiwn dystiolaeth gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Chyngor Gofal Cymru ar 30 Mai.

Y prif themâu

6. Cytunodd y grŵp cyfeirio mai dyma'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sesiynau tystiolaeth ffurfiol a gaiff eu crybwyll ym mharagraff 4:

   - **Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** ddylai fod wrth wraidd darparu gwasanaethau. Mae angen ystyried pobl mewn modd cyfannol, a dylai fod cymorth ar gyfer yr unigolyn cyfan, gan

sicrhau bod pob cyflwr sydd ganddynt a chyflyrau posibl yn cael eu canfod a'u trin.

- Dylai gwasanaethau **ailalluogi** a gwasanaethau tebyg fod **ar gael i bawb**, **ym mhob cam** o'r broses gofal preswyl. Mae annog pobl i fod mor annibynnol â phosibl yn rhan allweddol o'r broses o adfer. Dylid gweithio i **godi ymwybyddiaeth** o bob gwasanaeth sydd ar gael.

- Mae angen **gweithio mewn partneriaeth yn well a rhannu arfer da ac arbenigedd**. Dylai fod mwy o weithio hyblyg a llai o seilos yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai fod cyfathrebu gwell rhwng sefydliadau, yn enwedig yng nghyswllt cadw cofnodion, er mwyn sicrhau dilyniant yn nhriniaeth y claf.

- Mae angen **digon o gyllid** ar gyfer gwasanaethau, ac **isafswm taliadau** ar gyfer gwasanaethau gofal, p'un a ydynt yn wasanaethau a ddarperir yn y cartref neu mewn cartrefi gofal preswyl. Gall comisiynu ar sail cost yn hytrach nag ansawdd gael effaith andwyol, o bosibl, ar y gwasanaethau y mae pobl yn eu cael.

- **Mae angen gwybodaeth well, fwy hygyrch ynghylch y mathau o ofal sydd ar gael**. Bydd hyn yn helpu i ateb cwestiynau fel beth sy'n nodweddu gofal o safon. Dylid diffinio ailalluogi yn glir, a fydd yn helpu i sicrhau cysondeb o ran yr hyn sy'n nodweddu ailalluogi, ynghyd â chyfarwyddyd yn hynny o beth, i'r rheini sy'n ei ddarparu.

- **Dylai hyfforddiant ar faterion fel dementia a chlefyd Parkinson ymwneud â mwy na chodi ymwybyddiaeth yn unig**; dylai ymwneud hefyd â sut y dylid ymdrin â'r cyflyrau hyn, a dylai anelu at wella sgiliau staff yn gyffredinol, mewn wardiau ysbytai, meddygfeydd, a chartrefi gofal.

- Dylid **gweld mwy o werth mewn staff sy'n gweithio yn y sector gofal**. Mae gan weithwyr gofal mewn cartrefi gofal a'r rheini sy'n darparu gofal yn y cartref nifer o gyfrifoldebau, yn ogystal â bod wedi'u cyfyngu arnynt yn aml gan bwysau ariannol a phwysau o ran eu hamser, a dylid cydnabod hyn mwy.

7. Wrth drafod y prif themâu a'r dystiolaeth a glywyd, mynegodd y grŵp y pwyntiau a ganlyn:

   - Dylid cynnal **trafodaethau am anghenion gofal pobl yn y dyfodol ar adeg briodol**, gyda'r holl bobl berthnasol. Fel arfer, dylid gwneud hyn mor fuan ag y bo modd – ond bydd hyn yn amrywio yn ôl y sefyllfa a'r

bobl dan sylw. Mae angen cymorth ac eiriolaeth i sicrhau bod hyn yn effeithiol.

- Rhaid i'r **broses asesu** ar gyfer y rheini sy'n cael gofal neu'r rheini y canfyddir y bydd angen gofal arnynt, o bosibl, **fod yn barhaus**, ac ni ddylai fod yn rhywbeth a wneir unwaith yn unig. Gall pobl ymddangos yn glir eu meddwl mewn un asesiad, ond mae modd meithrin dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o les unigolyn os cynhelir asesiadau parhaus. Ar ben hynny, gall anghenion pobl fod yn fwy neu'n llai gan ddibynnu ar eu cyflyrau a'r driniaeth y maent yn ei chael, a dylid monitro hyn drwy'r broses asesu.

- Teimlai'r grŵp y dylai **mwy o wybodaeth am ailalluogi** fod ar gael. Buont yn trafod nodweddion ailalluogi a pha mor anodd ydyw i'w diffinio. Roedd hwn yn faes yr oedd angen ei egluro, yn eu barn hwy, ac roedd angen hefyd am ddata sylfaenol am wasanaethau ailalluogi, er mwyn gallu symud ymlaen yn y maes hwn. Teimlai'r grŵp nad oedd y gwasanaethau a ddarperir, fel ailalluogi, wedi'u ffurfioli'n iawn ar hyn o bryd, a'u bod yn cael eu darparu mewn modd ad hoc. Teimlent y dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn, a darpariaeth safonol i bawb.

- Bu'r grŵp yn trafod y ffaith bod **unigedd yn broblem** i bobl yng nghefn gwlad ac mewn ardaloedd trefol. Teimlent ei bod yn werthfawr iawn bod y trydydd sector yn cymryd rhan drwy gyfrwng prosiectau fel cyfeillio. Teimlent hefyd fod **nifer o heriau ynghlwm wrth ddarparu gofal yn y cartref yng nghefn gwlad**, oherwydd yn aml nid oedd contractau'n darparu ar gyfer amseroedd teithio a chost. Gall hyn beri i'r contractau beidio â bod yn hyfyw neu'n atyniadol i gyflenwyr.

- **Mae angen mynd i'r afael â natur gwrth-risg gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd**. Teimlai'r grŵp fod angen newid agweddau a bod angen canolbwyntio llai ar bethau a allai ddigwydd. Teimlent y byddai hyn o gymorth wrth alluogi pobl i fod yn fwy annibynnol, ac y gallai helpu i leihau costau yn y tymor hir.

- Teimlai'r grŵp fod **taliadau uniongyrchol** i bobl hŷn yn rhy isel i alluogi pobl i brynu gwasanaethau wedi'u rheoleiddio, sy'n golygu eu bod yn anhyfyw ar hyn o bryd. Ymddengys nad yw'r system yn dymuno rhoi cymorth i bobl hŷn yn eu cartrefi.

- Teimlai'r grŵp y byddai gwell rheoleiddio ar y system gofal yn y cartref yn gam cadarnhaol.

- **Yn aml, nid yw'r amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer ymweliadau gofal â'r cartref, a'r cymorth ar gyfer yr ymweliadau hyn, yn ddigon** ar gyfer y tasgau y mae gofyn iddynt ymgymryd â hwy. Mae

hynny'n wir yn arbennig lle y gallai fod gan y claf ddementia, ac efallai y bydd yn cymryd amser i gael mynediad i'r tŷ ac i ennyn hyder y cleient. Mae'r taliadau yswiriant ac atebolrwydd y mae eu hangen er mwyn i staff gofal yn y cartref roi meddyginiaeth yn rhwystro'r mwyafrif o ddarparwyr rhag gallu cynnig y gwasanaeth hwn.

- Mae **cynllunio da**, gan ystyried elfennau fel colli synhwyrau a dementia, yn hanfodol wrth ddatblygu lleoliadau gofal newydd. Dylai'r gwaith o ddatblygu tai newydd hefyd ystyried bod anghenion y boblogaeth yn newid, a dylid sicrhau y byddant yn addas i'r henoed yn y dyfodol. Teimlai'r grŵp, heb grantiau digonol ar gyfer addasu cartrefi pobl, fod rhywfaint o'r dewis o ran aros gartref yn cael ei ddileu.

- Bu'r grŵp yn trafod y ffaith ei bod yn aml **yn anodd siarad ag aelodau o'r teulu am eu hanghenion gofal**, yn enwedig os nad oeddent am gydnabod eu cyflwr. Teimlai'r grŵp fod llawer o'r materion mewn perthynas â diffyg gwybodaeth a'r anawsterau o ran trafod ag aelodau hŷn o'r teulu yn ymwneud â'r cenedlaethau, a theimlai'r grŵp y byddent hwy a chenedlaethau'r dyfodol wedi'u paratoi'n well ar gyfer y dewisiadau a'r trafodaethau y byddai angen ymgymryd â hwy.

- Teimlai'r grŵp na ddylid ystyried dementia a'r angen am ofal **yn stryd unffordd tuag at ddirywiad**, a'i bod yn hanfodol **fod gan bobl ddewis ac annibyniaeth**. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan bobl bwrpas yn eu bywydau.

- Roedd aelodau'r grŵp wedi cymryd yn ganiataol fod pob aelod o'r staff nyrsio mewn lleoliadau gofal preswyl wedi'u hyfforddi i ymdrin â dementia. Gwnaethant nodi nad oeddent wedi meddwl am yr angen i gadarnhau pa hyfforddiant yr oedd staff wedi'i gael wrth ddewis cartref.

- Yn aml, nid yw'r **math o iaith a gaiff ei defnyddio yng nghyd-destun trin cleifion sydd â dementia yn ddefnyddiol** – er enghraifft, teimlai'r grŵp ei bod yn bosibl fod unigolyn y dywedir ei fod yn "ystyfnig" yn cael trafferth cyfathrebu, mewn gwirionedd.

Cwestiynau ar gyfer sesiynau'r dyfodol

8. Bu'r grŵp yn trafod meysydd sy'n destun pryder ynghylch yr ymchwiliad o ran arolygu a rheoleiddio. Gwnaethant awgrymu hefyd y dylid cyflwyno'r sylwadau a'r cwestiynau a ganlyn i AGGCC/AGIC a Chyngor Gofal Cymru:

   - Rhaid i'r broses arolygu gynnwys treulio digon o amser gyda phreswylwyr a'u teuluoedd.

- Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod profiadau preswylwyr o'r cartref preswyl yn cael mwy o sylw?

- O brofiad y grŵp, ymddengys na chaiff adroddiadau arolygu gwael eu gorfodi, ac nad oes canlyniadau yn deillio ohonynt. Mae angen camau gweithredu clir ar gyfer gorfodi – ymddengys fod pethau tebyg yn codi flwyddyn ar ôl blwyddyn.
    - Beth sy'n cael ei wneud i gryfhau'r broses o orfodi canfyddiadau'r gyfundrefn arolygu?
    - A oes unrhyw broses ddilynol ynghylch sicrhau nad yw rheolwyr a staff cartrefi gofal yn edrych am waith mewn cartrefi gofal eraill ar ôl iddynt gael eu diswyddo?

- Mae nifer o weithiwyr proffesiynol yn gweithio mewn cartrefi gyda phreswylwyr, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol ac aseswyr gofal cymhleth (os caiff y claf ei gyllido gan y gwasanaeth iechyd).
    - A yw AGGCC yn gweithio gyda'r bobl hyn cyn arolygu i ganfod unrhyw feysydd sy'n destun pryder? A oes proses o gysylltu â hwy'n barhaus ynghylch y prif bryderon sy'n dod i'r amlwg mewn cartrefi?

- Teimlai'r grŵp cyfeirio fod cartrefi gofal yn gwybod pryd yr oedd yn debygol y byddai arolygiadau'n cael eu cynnal, gan eu bod yn tueddu i ddilyn yr un patrwm ar draws rhanbarthau. Teimlent fod angen mwy o hapwiriadau ac arolygwyr lleyg.
    - Beth sy'n cael ei wneud i ddod ag arolygwyr lleyg yn ôl i mewn i'r system? [Barn y grŵp yw bod angen defnyddio mwy o weithdrefnau ac i fwy o bobl gymryd rhan, gan gynnwys arolygwyr lleyg.]
    - Mae AGIC yn cynnal arolygiadau heb rybudd mewn ysbytai o safbwynt urddas – a yw'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn cartrefi gofal hefyd?

- Dylid rheoleiddio yn achos staff islaw rheolwyr – ni ddylai cost cofrestru cael ei chrybwyll fel rhwystr.

- Mynegodd y grŵp bryderon ynghylch pam y bu cynnydd yn nifer y cartrefi sy'n hunanasesu – a hwythau'n berthnasau i breswylwyr, roeddent yn pryderu'n fawr am hyn.

- Defnyddiodd y grŵp yr adroddiadau arolygu ysgrifenedig fel ffynhonnell wybodaeth ar gyfer penderfynu i ble y dylai aelodau o'r teulu fynd – maent o'r farn y gellid gwella'r adroddiadau hyn, ac y gallent gynnwys gwybodaeth fwy hygyrch, defnyddiol, ac sy'n rhoi

darlun cliriach o realiti bywyd preswylydd mewn lleoliad preswyl penodol. At hynny, roedd y grŵp o'r farn

- bod angen mwy o ystyriaeth o gynulleidfa bosibl adroddiadau, ac y dylai'r adroddiadau egluro materion mewn termau cyffredin;
- y dylai'r arolygiaeth ystyried cynnwys pethau fel ffeithiau a ffigurau diddorol am y cartrefi;
- y dylai'r adroddiadau fod ar gael yn eang, ac nid ar y we yn unig;
- bod gormod o sylw yn cael ei roi i weithdrefn a gwaith papur yn yr adroddiadau, ac y dylid gwneud mwy o waith i glywed barn y bobl sy'n ymwneud â'r cartref gofal drwy gysylltu'n uniongyrchol â hwy; nid yw holiaduron yn ddigon;
- y dylid ystyried cyfarfodydd preswylwyr yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol ar gyfer arolygwyr.

- Gofynnodd y grŵp beth yr oedd AGGCC yn ei wneud i sicrhau bod data yn cael ei ddiogelu mewn cartrefi. Roedd enghreifftiau a grybwyllwyd gan y grŵp cyfeirio yn cynnwys lluniau teuluol yn cael eu defnyddio at ddibenion hysbysebu cartrefi, er na roddwyd caniatâd ar gyfer gwneud hynny. Mae'n bwysig bod preifatrwydd preswylwyr yn cael ei gynnal.

- O ystyried nifer yr achosion o rai cyflyrau, fel colli synhwyrau / dementia / salwch meddwl, roedd y grŵp am gael gwybod pa lefel o hyfforddiant y mae arolygwyr wedi'i chael yn y meysydd hyn, er mwyn gallu nodi a ydynt yn cael sylw digonol yn y cartrefi.

- Roedd y grŵp am gael gwybod a oes unrhyw fonitro'n cael ei wneud o nifer a mathau'r achosion o syrthio mewn lleoliadau preswyl, ac, os felly, i ba raddau yr eir i'r afael â hyn.

- Roedd y grŵp am gael gwybod ym mha fodd y mae morâl staff yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau arolygu. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau:
  - y gwneir addasiadau ar gyfer holi'r rheini nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn famiaith iddynt.
  - yr ystyrir pethau fel y llety byw a ddarperir i staff; roedd y grŵp o'r farn y gall y llety hwn fod o ansawdd isel iawn, ac y gallai effeithio ar allu gweithwyr gofal i gyflawni eu swyddi.

- Roedd y grŵp o'r farn y dylid monitro'r hyfforddiant a ddarperir i staff, ac y dylid cynyddu nifer yr elfennau gorfodol o hyfforddiant, e.e. hyfforddiant gorfodol ar ddementia.

9. Cytunodd y grŵp i ystyried cwestiynau posibl ar gyfer sesiwn y Pwyllgor gyda'r darparwyr gofal, a fydd yn cael ei gynnal ar 14 Mehefin 2012.

10. Cytunodd y grŵp i ystyried materion yn ymwneud â chyllid a disgrifiad o swydd gweithiwr gofal yn y cyfarfod nesaf.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-23-12 papur 6

Ymchwiliad i Ofal Preswyl i Bobl Hŷn – Nodyn o gyfarfod y Grŵp Cyfeirio ar 12 Mehefin 2012

Cefndir

1. Sefydlodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol grŵp cyfeirio ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yn ystod gwanwyn 2012. Mae'r grŵp yn cynnwys y rhai a fu'n cynorthwyo ffrindiau neu aelodau o'r teulu mewn lleoliadau gofal preswyl yn ddiweddar, sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd, neu sy'n wynebu gwneud hynny yn y dyfodol.

2. Rôl y grŵp cyfeirio allanol yw rhoi barn i'r Pwyllgor ynghylch y prif faterion a fynegwyd yn ystod yr ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys eu barn ynghylch y graddau y mae'r wybodaeth a ddarperir yn y dystiolaeth yn adlewyrchu eu profiadau personol eu hunain, a'r graddau y maent yn cytuno â'r cyfeiriad polisi presennol ym maes gofal preswyl i bobl hŷn.

3. Bydd y grŵp cyfeirio yn cyfarfod bob mis yn ystod y cyfnod o gasglu tystiolaeth lafar, gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd eisoes a chynnig mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn mewn sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol. Bydd y grŵp cyfeirio yn cytuno ar bob nodyn a lunnir o'i gyfarfodydd cyn eu cyhoeddi.

Crynodeb

4. Cyfarfu'r grŵp ar 12 Mehefin 2012 i drafod y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 16 Mai 2012 gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau staff.

5. Bu'r grŵp hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â chyllido gofal preswyl, proffil staff ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes gofal, a chwestiynau y gellid eu gofyn yn y sesiynau tystiolaeth gyda darparwyr annibynnol ar 14 Mehefin, a chyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Mehefin.

Y prif themâu

6. Cytunodd y grŵp cyfeirio mai dyma'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sesiwn dystiolaeth ffurfiol a gaiff ei chrybwyll ym mharagraff 4:

   - Mae **terminoleg** fel *'digonol' neu 'waith ychwanegol'*, a gaiff ei defnyddio gan y staff a chyrff proffesiynol, yn rhy amwys.

- Rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â **recriwtio a chadw staff ar bob lefel ym maes gofal**. Dylid ystyried gweithio ym maes gofal yn broffesiwn, sydd â llwybr gyrfa clir a graddfeydd cyflog sy'n adewyrchu profiad.

- Yr **angen am hyfforddiant addas ac ymarferol ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes gofal**. Rhaid i hyn fod yn fwy nag ymarfer ticio blychau, a rhaid i'r hyfforddiant fod yn ystyrlon ac yn berthnasol i'r rheini sy'n darparu gofal.

- Rhaid **cynllunio'n ehangach ar gyfer y dyfodol**, gan ystyried newidiadau yn nemograffeg Cymru.

- Yr angen am **isafswm o ran lefelau staffio** mewn cartrefi gofal, er mwyn sicrhau bod bob amser nifer briodol o aelodau staff yn gweithio, yn enwedig dros nos.

7. Wrth drafod y prif themâu a'r dystiolaeth a glywyd, mynegodd y grŵp y pwyntiau a ganlyn:

   - Ymddengys fod nifer o fwriadau da, a rhethreg am wahanol sefydliadau yn cydweithio; fodd bynnag, ymddengys na chefnogwyd hyn gan weithredu cadarnhaol a gwaith i symud ymlaen.

   - Ymddengys fod y **sefydliadau proffesiynol yn diystyru gwaith a chyfraniad posibl y trydydd sector**. Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd gwirfoddolwyr, mae gwaith y trydydd sector yn cael effaith a dylanwad llawer mwy eang na hyn.

   - Drwy gydol yr holl sesiynau tystiolaeth, ymddengys **na chyfeiriwyd fawr at y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol** a'r effaith y gallai ei chael ar nodweddion gofal preswyl.

   - Mae **tuedd mewn ysbytai, wrth ofalu am yr henoed, i ganolbwyntio ar y diffygion** a'r hyn na all pobl ei wneud, yn hytrach na'r galluoedd sydd ganddynt o hyd. Gall hyn beri i gleifion ddirywio.

   - Drwy gydol y sesiynau tystiolaeth, **nid oes yr un tyst wedi cyfeirio at y mater pwysig o brofedigaeth**. Yn aml, mae ar bobl angen galaru am y perthnasau hynny nad ydynt wedi marw ond y cafwyd bod ganddynt ddementia, clefyd Parkinson, neu gyflyrau tebyg, yn enwedig pan fyddant yn mynd i ofal preswyl. Mae datblygu a rhannu cynlluniau diwedd bywyd â theuluoedd yn gysylltiedig â hyn.

   - Dylai fod **ffyrdd gwell o sicrhau bod cartrefi'n rhannu arferion da**. Gellid gwneud hyn drwy'r gyfundrefn arolygu, o bosibl, a gallai

arolygwyr geisio annog y cartrefi hynny na fu'n perfformio cystal i gymryd rhan, drwy awgrymu enghreifftiau o arfer da.

- Os yw'r tâl a gewch mewn cartref gofal yn llai na'r hyn y byddwch yn ei gael am weithio mewn archfarchnad, bydd y swydd yn parhau'n anatyniadol. Mae hyn yn broblem arbennig o gofio nad oes llwybr gyrfa clir yn y sector.

- Mynegodd y grŵp bryder, os nad oedd gweithio mewn gofal yn atyniadol i'r bobl hynny mewn swyddi proffesiynol â chyflog uwch, fel seiciatryddion, y byddai hyd yn oed yn llai tebygol o ddenu'r rheini sy'n mynd i swyddi â chyflog is, fel gweithwyr gofal.

- **Ni all e-ddysgu gymryd lle dysgu ymarferol**. Wrth drafod y ddarpariaeth gofal, gofynnodd y grŵp a ystyriwyd cynnwys trosglwyddo gwybodaeth ac ymweld â chartrefi gofal eraill, o bosibl, mewn rhaglenni hyfforddiant.

- **Dylai bywydau pobl fod yn werth y gost o reoleiddio a chofrestru** staff ar bob lefel ym maes gofal.

- Arweinyddiaeth dda yw'r sail i reoleiddio da.

- Mae Cyngor Gofal Cymru wedi gwneud llawer o waith da ynghylch camau cychwynnol cofrestru staff. Dylid datblygu hyn yn awr, ac ni ddylai Cymru fod ar ei hôl hi.

- Rhaid i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys nyrsys a therapyddion galwedigaethol, sy'n gofalu am bobl hŷn wybod mwy am ba wasanaethau a chymorth sydd ar gael yn y gymuned.

- Roedd y grŵp o'r farn ei bod yn bwysig ystyried dewisiadau unigol o ran ble y mae pobl yn dymuno byw. Yn enwedig, teimlent ei bod yn bwysig cydnabod pam mae pobl yn dymuno aros gartref a bod yn annibynnol, ac y gellid defnyddio hyn i ddatblygu'r sector gofal.

- Roedd y grŵp **yn pryderu bod sefydliadau proffesiynol yn tueddu i wneud penderfyniadau sy'n osgoi risg** yng nghyswllt pobl hŷn. Hoffai'r grŵp weld y grwpiau hyn yn cael mwy o rym ac arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniad gorau ar gyfer y claf ac nid y penderfyniad sydd â'r risg leiaf o'u safbwynt hwy.

- Dylid cynnal arolwg hydredol ymysg pobl sy'n 60 oed er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cyfathrebu â'r rheini a fydd yn defnyddio ac yn cyllido'r system gofal preswyl yn y dyfodol wrth ddatblygu modelau gofal newydd.

- Roedd y grŵp o'r farn bod **hyfforddiant yn elfen allweddol o ddarparu gwasanaeth gwell ym maes gofal preswyl**, yn enwedig mewn meysydd fel dementia, lle y gall hyd yn oed ychydig bach o hyfforddiant drawsnewid y gofal a ddarperir mewn cartref. Fodd bynnag, teimlai'r grŵp fod materion yn ymwneud ag ansawdd yn codi'n aml pan fo hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol gan gartrefi, ac yn electronig.

- Yn aml, gall hyfforddiant mewn lleoliadau gofal fod yn ymarfer ticio blychau, yn enwedig yng nghyswllt iechyd a diogelwch a chodi a chario, er enghraifft, nad oes ganddo fawr o gyswllt â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Pan ofynnir i'r staff am hyfforddiant, ni allant weld cyswllt rhwng yr hyn a ddysgwyd a'u profiadau yn y swydd.

- Mynegodd y grŵp bryder y gallai preswylwyr ddioddef os aethpwyd â'r staff oddi ar y safle i'w hyfforddi a chyflogwyd staff asiantaeth yn eu lle nad oeddent yn gwybod am anghenion preswylwyr.

- Credai'r grŵp fod y cysyniad o gael pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth yn un da, ac y byddai'n ddefnyddiol cael ffordd o arwain pobl drwy'r broses o ddewis gofal preswyl a mynd i ble y caiff ei ddarparu. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai angen cefnogaeth pawb sy'n ymwneud â darparu gofal preswyl ac y byddai angen i'r adnoddau priodol fod ar gael er mwyn sicrhau y gallai pobl gael gafael ar y wybodaeth mewn pryd. Awgrymodd y grŵp y dylid ystyried modelau sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu unrhyw adnodd o'r fath, er mwyn dysgu o arferion gorau.

- Mae llawer o'r dystiolaeth a gafwyd wedi awgrymu bod preswylwyr yn cael profiad negyddol mewn cartrefi mwy, o'u cymharu â chartrefi llai. Fodd bynnag, pwysleisiodd y grŵp fod rhai manteision yn gysylltiedig â chartrefi gofal mwy, gan y gallant ddarparu dewis ehangach o weithgareddau, ynghyd â mwy o gyfle i gymdeithasu ac i barhau'n fwy gweithgar yn gyffredinol.

- Ym marn y grŵp, roedd honiad yr undebau llafur bod diffyg hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff, cyflogau isel, a diffyg proffesiynoli yn y sector gofal yn adlewyrchu sut y caiff staff eu gweld, ac yn pwysleisio bod angen dyrchafu'r alwedigaeth.

8. Yn ychwanegol at ystyried y materion a ddaeth i'r amlwg yn y sesiynau tystiolaeth, bu'r grŵp hefyd yn ystyried nifer o bwyntiau yn ymwneud â themâu sy'n codi'n aml, sef cyllid a phroffil y staff:

Cyllid

- Nid yw cael lleiafswm o gyllid yn ddigon; bydd yn arwain at lai a llai o

arian. Ni ddylai'r ffaith bod rhywun yn cael ei gyllido drwy'r awdurdod lleol olygu o reidrwydd na all ond fynd i gartref o ansawdd is.

- Rhaid ystyried y system ar gyfer taliadau ychwanegol.

- Rhaid gwneud mwy o waith ynghylch taliadau gofal parhaus, gan eu bod yn cael eu dyfarnu mewn modd anghyson ar hyn o bryd. Teimlai'r grŵp fod loteri o ran cael y taliadau hyn, ac mai'r ffordd yr ydych yn ateb cwestiynau'r asesiad sy'n bwysig, yn hytrach na bod gwerthusiad gwirioneddol o angen. Ymddengys fod cleifion yng Nghymru (yn enwedig y rheini sydd â dementia neu gyflyrau gwybyddol) o dan anfantais o'u cymharu â chleifion yn Lloegr, a hynny o ganlyniad i'r dull a ddefnyddir i asesu.

Proffil y Staff

- Mae'r sgiliau a'r gofynion y mae eu hangen ar staff sy'n gweithio ym maes gofal preswyl yn llawer uwch nag sy'n cael ei gydnabod. Er enghraifft, mae angen i staff wybod am nifer o gyflyrau, gan gynnwys clefyd Alzheimer, clefyd Parkinson, a nam ar y synhwyrau, a rhaid iddynt allu gweithredu o ganlyniad i arwyddion y cyflyrau hyn.

- Mae angen gwneud mwy o waith i godi proffil gweithwyr gofal, ac i wella agweddau tuag at staff.

- Roedd y grŵp o'r farn y gellid crynhoi'r nodweddion y mae eu hangen ar y rheini sy'n gweithio ym maes gofal preswyl drwy ddefnyddio'r pedwar 'S': ***Sicr*** (i allu ymdrin ag unrhyw heriau); ***Sensitif*** (o ran urddas); ***Synnwyr digrifwch***; a ***Stumog gref***.

- Dylid ystyried gweithio ym maes gofal yn alwedigaeth, a dylid gweithio i sicrhau bod strwythur gyrfa clir ynddi.

- Dylid hyrwyddo gweithio yn y sector gofal a'r manteision a'r gwobrwyon sy'n gysylltiedig ag ef. Eto i gyd, byddai angen i hyn gynnwys pob agwedd ar yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn y swydd, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r gyfradd cadw staff.

- Awgrymodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol pe bai manyleb safonol y person i weithwyr gofal ar gael, y gallai'r arolygiaeth ei defnyddio i sicrhau bod y sgiliau priodol mewn cartref, a bod gan staff asiantaethau gymwysterau priodol.

Cwestiynau ar gyfer sesiynau'r dyfodol

9. Awgrymodd y grŵp y meysydd a ganlyn y byddai'r Pwyllgor efallai am eu trafod â'r Dirprwy Weinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn y cyfarfod ar

20 Mehefin 2012:

- Yr angen am fodelau ariannol gwahanol wrth ddarparu gofal preswyl, er mwyn sicrhau hyfywedd gwasanaethau gofal yn y dyfodol ac i sicrhau y gall unigolion ddewis i ble y maent yn mynd. Dylai hyn gynnwys dewisiadau a fyddai'n galluogi unigolion i fuddsoddi yn eu gofal fel rhanddeiliad.

- Talu am ofal a chanfod beth yw safbwynt Cymru ynghylch Comisiwn Dilnot.

- Sicrhau bod tryloywder yng nghyswllt gwybodaeth am gartrefi preswyl preifat, mewn meysydd fel hyfywedd ariannol, nifer y staff, a hyfforddiant/cymwysterau, a fydd yn galluogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus.

- Gwaith cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer anghenion gofal yn y dyfodol– teimlai'r grŵp fod angen cynnal arolwg o bobl yn eu 50au/60au i weld sut y gallai'r proffil anghenion iechyd/gofal fod yn y dyfodol.

- Ffyrdd i fynd i'r afael â chanfyddiad gwael y cyhoedd o gartrefi gofal a gwaith gofal.

- Yr angen i symud i ffwrdd o 'gartrefi' preswyl/ymddeol ac ehangu'r gorwel i gwmpasu pentrefi ymddeol, lle y gellid ymdrin ag anghenion gwahanol.

Unrhyw fater arall

10. Cytunodd y grŵp i gynnal cyfarfod arall tua diwedd mis Gorffennaf neu ar ddechrau mis Awst er mwyn trafod y prif themâu ac argymhellion a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwiliad; bydd hynny'n cyfrannu at yr adroddiad drafft.